

Adran Gwaith a Phensiynau

# Taflen Ffeithiau Hawlydd Budd-dal Tai
## Cymorth gyda rheoli eich taliadau rhent

### Rheoli eich arian
Gall fod yn anodd ar adegau i reoli arian, ond gallwch ddod o hyd i lawer o gyngor annibynnol i'ch helpu chi. Gallwch ddod o hyd i rai cysylltiadau defnyddiol isod.

Os na allwch dalu eich rhent, rydych wedi methu taliadau neu os ydych yn poeni nad yw eich taliadau yn cael eu gwneud, mae'n bwysig i chi gymryd rhai camau.

Hyd yn oed os oes gennych ddyledion eraill, gwnewch yn siŵr eich bod yn blaenoriaethu ôl-ddyledion rhent. Os nad yw eich rhent yn cael ei dalu, gelwir yr arian sy'n ddyledus yn 'ôl-ddyledion rhent'. Mae ôl-ddyledion rhent yn 'ddyledion â blaenoriaeth' sy'n golygu bod y canlyniadau o beidio â'u talu yn ddifrifol – mae risg o gael ei droi allan.

### Pethau y gallech eu gwneud
Gall asiantaeth gynghori dyledion neu sefydliadau eraill gynnig help a chymorth i'ch helpu i fynd yn ôl ar y trywydd iawn. I ddechrau, gallech:

- gwneud rhestr o'ch holl ddyledion a'u rhoi yn nhrefn blaenoriaeth
- ysgrifennu eich holl incwm a threuliau i lawr - i weld faint sydd gennych i dalu eich dyledion
- cyfrifo faint y gallwch fforddio ei dalu i bob credydwr (unigolyn neu sefydliad mae arnoch chi arian iddynt)
- ystyried cael cyngor gan asiantaeth cyngor ar ddyledion (gweler isod am restr o asiantaethau)
- yn bwysicaf oll, siaradwch â'ch landlord - ceisiwch gyrraedd gytundeb am dalu'r ôl-ddyledion, ond peidiwch â chytuno i dalu mwy nag y gallwch ei fforddio. Un ffordd o wneud hyn yw drwy gynllun rheoli dyledion y cytunwyd arno.

Cofiwch unwaith y bydd eich rhent yn cael ei dalu'n llawn eto, bydd yr ôl-ddyledion sydd wedi cronni yn dal gorfod cael eu talu.

### Help i dalu eich rhent
Hyd yn oed os ydych yn derbyn Budd-dal Tai, os nad yw'n cynnwys eich rhent, mae'n bosib y byddwch yn gallu cael rhywfaint o arian ychwanegol sef Taliad Tai Dewisol. Cysylltwch â'ch cyngor lleol i weld a ydych yn gymwys ac i wneud cais. Mae taflen ffeithiau am Daliadau Tai Dewisol ar gael ar wahân.

Gall asiantaeth gynghori hefyd gynnig cyngor am help ariannol arall sydd ar gael neu fudd-daliadau eraill efallai y byddwch yn gallu eu hawlio.

### Beth all ddigwydd os na fyddwch yn talu eich rhent
Mae gan landlordiaid fel arfer yr hawl i geisio gorchymyn llys i'ch troi allan am ôl-ddyledion rhent. Mewn rhai amgylchiadau efallai y bydd eich landlord yn medru eich troi allan heb yr angen i gael gorchymyn llys yn gyntaf.

Mae'r rheolau ynglŷn â phryd a sut y gall landlord eich troi allan am ôl-ddyledion rhent yn wahanol yn dibynnu ar y math o gytundeb tenantiaeth sydd gennych. Bydd y math o gytundeb tenantiaeth sydd gennych yn dibynnu'n rhannol ar bwy yw eich landlord. Os ydych yn ansicr ynghylch pa fath o denantiaeth sydd gennych, dylech wirio eich cytundeb tenantiaeth. Am fwy o wybodaeth ar fathau o denantiaeth a throi allan, ewch i **www. gov.uk/ council-housing-association-evictions**

Trowch drosodd ▶

## Cymorth a chyngor

Gallwch gael cyngor annibynnol am ddim am anawsterau rhent gan sawl sefydliad.

### Gwasanaeth Cynghori Ariannol

Mae'r Gwasanaeth Cynghori Ariannol yn cynnig cyngor annibynnol am reoli eich arian. Gallwch gael gwybodaeth ar-lein neu drwy ffonio'r llinell gymorth am ddim.

www.moneyadviceservice.org.uk

0300 500 5000

Mae galwadau am ddim o linellau daear y DU a'r rhan fwyaf o rwydweithiau symudol.

### Canolfannau cyngor ar dai

Mae canolfannau cyngor ar dai yn cynnig help gyda phob mater ar gyfer tai. Maent yn cael eu rhedeg gan gynghorau neu sefydliadau gwirfoddol.

### Shelter

Mae Shelter yn cynnig cyngor wyneb-yn-wyneb, dros y ffôn, drwy e-bost ac ar-lein am unrhyw broblemau ynglŷn â thai (nid dim ond digartrefedd yn unig).

www.shelter.org.uk

www.sheltercymru.org.uk

www.shelter.org.uk/scotland

0808 800 4444

Mae galwadau am ddim o linellau daear y DU a'r rhan fwyaf o rwydweithiau symudol.

### Canolfannau Cyngor ar Bopeth

Mae Canolfannau Cyngor ar Bopeth yn cynnig cyngor cyfrinachol am ddim wyneb-yn-wyneb neu dros y ffôn. Mae llawer o Ganolfannau Cyngor ar Bopeth hefyd yn cynnig ymweliadau cartref ac mae rhai yn rhoi cyngor drwy e-bos.

www.citizensadvice.org.uk

Ar gyfer Cymru ffoniwch 08444 111 444

Ar gyfer Lloegr ffoniwch 0808 800 9060

Ar gyfer yr Alban ffoniwch 08444 77 20 20

Dylai defnyddwyr 'TextRelay' ffonio 08444 111 445

0844 numbers will be charged at the standard rate a BT landline and may cost considerably more from mobile and other phones.

### Llinell Ddyled Genedlaethol

Mae'r Llinell Ddyled Genedlaethol yn wasanaeth cyfrinachol sy'n cynnig cyngor annibynnol am ddim ar gyfer delio gyda dyled. Gallwch gael gwybodaeth ar-lein neu drwy ffonio'r llinell gymorth am ddim.

www.nationaldebtline.co.uk

0808 808 4000

Mae galwadau am ddim o linellau daear y DU a'r rhan fwyaf o rwydweithiau symudol.